



Gobeithiwn eich bod yn mwynhau'r haf cymaint â ni!

Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) yn llawn gweithgarwch wrth i ni blymio i flwyddyn olaf ein cam presennol, a ariennir gan Gronfa Rhwydweithiau Natur Treftadaeth y Loteri a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gyda chymaint o brosiectau cyffrous ar y gweill a mwy ar y gorwel, roeddem am gymryd eiliad i rannu rhai diweddariadau â chi a rhoi cipolwg ar yr hyn sydd ar ddod.

Mae cymaint yn digwydd na allwn gynnwys y cyfan, ond bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi cipolwg i chi, gyda ffocws arbennig ar ein gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer eleni.

Cadwch lygad am fwy o ddiweddariadau a chewch eich ysbrydoli gan y gwaith anhygoel rydym yn gwneud gyda'n gilydd, neu beth am ymuno â'r gwaith anhygoel hynny!



Funded by UK Government  Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

PARTNERIAETH GRID GWYRDD GWENT: CRYNODEB

Mae'r bartneriaeth, sy'n cynnwys pum awdurdod lleol Gwent, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a rhanddeiliaid eraill, yn gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Rydym ar genhadaeth i wella ansawdd mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan eu gwneud yn fwy gwydn i fywyd gwylt a phobl. Mae ein pum swyddog rhanbarthol PGGG, ynghyd â'r Grŵp Cyflawni a'r Grŵp Llywio, yn dod â gwerth aruthrol i'n cymunedau ledled y rhanbarth.





HELPU NATUR I'N HELPU NI: Y BIOTAPESTRI



Un o'n prosiectau mwyaf cyffrous ac uchelgeisiol hyd yma yw datblygu'r BioTapestri. Mae'r fenter anhygoel hon yn dathlu'r fioamrywiaeth gyfoethog a rhyng-gysylltiedig a geir ar draws rhanbarth Gwent, gan arddangos sut y gall yr ecosystemau hyn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw gan newid yn yr hinsawdd. Mae'r BioTapestri yn rhan o waith Ymwybyddiaeth Natur a Hinsawdd Tîm GGG, sy'n cael ei gynnal ochr yn ochr â gweithdai ysgolion. Ein ffocws yw ar effaith gadarnhaol Sut Gallwn Ni Helpu Natur i'n Helpu Ni gyda newid yn yr hinsawdd.

Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y BioTapestri yn mynd â chi ar daith ddiddorol trwy gynefinoedd, rhywogaethau a thirweddau amrywiol Gwent, i gyd wedi'u creu gan ein cymunedau lleol. Dychmygwch dapestri mor hir â Tapestry Bayeux gwreiddiol - 70 metr o hyd! Er na fydd yn dapestri go iawn, bydd yn greadigaeth cyfryngau tecstilau cymysg syfrdanol sy'n dod â bioamrywiaeth anhygoel rhanbarth Gwent yn fyw.

Mae swyddogion GGG yn cydweithio ag artistiaid lleol, grwpiau cymunedol, a gwirfoddolwyr i gynnal gweithdai, gan annog unigolion a grwpiau i fod yn greffus a chyfrannu'n greadigol at baneli BioTapestri ar gyfer eu hardal. Mae'r fenter hon yn meithrin ymdeimlad o falchder a chysylltiad â'n treftadaeth naturiol leol. Nod y BioTapestri yw plethu straeon cymunedol ac ymdrechion cadwraeth bioamrywiaeth at ei gilydd i mewn i dapestri bywiog sy'n tynnu sylw at gydgyssylltiad ein hamgylchedd. Rydym wedi gweld cyfranogiad rhyfeddol gan gymunedau lleol yr ydym eisoes wedi gweithio gyda nhw, gan gyfoethogi'r prosiect gyda safbwyntiau a chyfraniadau amrywiol, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda llawer mwy o bobl wrth i'r prosiect hwn ddatblygu.

Er mwyn dathlu llwyddiant ein prosiect BioTapestri, rydym yn cynllunio digwyddiadau ac arddangosfeydd i arddangos y tapestri a grëwyd gan aelodau'r gymuned. Bydd y rhain yn tynnu sylw at y straeon a'r ymdrechion y tu ôl i bob darn, gan gynnig cynrychiolaeth weledol o'n hymrwymiad ar y cyd i amddiffyn a gwella gwydnwch ein rhwydweithiau ecolegol i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan ddirywiad rhywogaethau a newid yn yr hinsawdd.



MAPIWR RHWYDWAITH ECOLEGOL GWYDN GWENT




Mae [Mapiwr Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Gwent newydd](#) nawr yn fyw! Wedi'i ddatblygu gan Environment Systems mewn cydweithrediad â phartneriaid PGGG, mae'r offeryn gwyh hwn wedi'i gynllunio i lywio ymdrechion adfer natur ledled Gwent. Mae'r mapiwr yn cynnig mapiau rhyngweithiol sy'n darparu golwg fanwl o gynefinoedd a rhwydweithiau, yn tynnu sylw at gyfleoedd adfer, ac yn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer adfer cynefinoedd a gwelliannau cysylltedd i wella gwydnwch ecolegol.

I ddathlu'r lansiad, cynhaliwyd gweithdy hyfforddiant ar 11eg Chwefror. Rhoddodd y gweithdy fewnwelediadau ac ysbrydoliaeth werthfawr ar gyfer datblygu prosiectau newydd. Gallwch ail-wylu'r [gweithdy hyfforddiant yma](#).

Mae'r mapiwr yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer adfer a chysylltedd, gan gynnwys ar gyfer cynefinoedd blaenoriaeth. Ar gyfer defnydd proffesiynol, mae'n helpu i gynllunio datblygu, prosiectau adfer natur, a mentrau ar raddfa tirwedd sy'n anelu at wella ehangder ecolegol, cyflwr a chysylltedd.

Ar gyfer pobl leol a grwpiau cymunedol, gall y mapiwr gwe helpu i gynllunio prosiectau cymunedol, gwella bioamrywiaeth leol, a gwneud penderfyniadau gwybodus am yr amgylchedd. Os oes gennych brosiectau yr hoffech eu harchwilio gyda'r mapiwr neu os oes angen cyngor a hyfforddiant arnoch, cysylltwch â'r PGGG.



Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn

Mae'r mapiwr yn allweddol yn ein cydweithrediad â CNC i ddatblygu Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn ac mae'n darparu tystiolaeth hanfodol o rwydweithiau cynefinoedd ledled Gwent. Mae Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn yn cynnig dull strategol o ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth Cymru. Trwy nodi, blaenoriaethu a chysylltu cynefinoedd allweddol, mae Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn yn creu fframwaith cadarn i addasu, gwrthsefyll ac adfer o bwysau fel newid yn yr hinsawdd a heriau amgylcheddol eraill, gan hefyd alinio ag anghenion a chyfleoedd lleol.

Mae'r PGGG, mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Lefelau Byw, CNC, a rhanddeiliaid, wedi arwain y prosiect peilot Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn cyntaf yng Nghymru ar Wastadeddau Gwent. Cafodd y Rhwydwaith Ecolegol Gwydn hwn ei gyd-gynllunio trwy gyfres o weithdai, mapio parthau craidd a pharthau adfer natur a fydd yn gyrru ac yn arwain cyflenwad lleol. Mae prosiect Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Gwastadeddau Gwent yn hyrwyddo gwaith Llywodraeth Cymru ar Bolisi 9 o brosiect peilot Gwastadeddau Gwent Cymru'r Dyfodol, gyda'r nod o integreiddio bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, a seilwaith gwyrdd i bolisiau cynllunio yng Nghymru. Bydd mapiau'r Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a gynlluniwyd ar gyfer Gwastadeddau Gwent ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho ar DataMap Cymru cyn bo hir.

Rydym bellach yn ymestyn datblygiad Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn ledled Gwent gyfan, gan archwilio pob ardal Proffil Tirwedd yn ei dro i fapio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a datblygu partneriaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer adfer natur, ochr yn ochr â CNC. I gefnogi'r ymdrech hon, rydym wedi derbyn cyllid gan Nature Networks 4, wedi'i gydlynu gan Fwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, i gomisiynu asesiadau gwasanaethau ecolegol ar gyfer Gwent, a fydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer y broses ddylunio.

Byddwn yn trefnu gweithdai yn ddiweddarach eleni lle bydd gennych y gallu i fwydo i mewn i'r broses ddylunio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn. Rydym yn edrych ymlaen at archwilio cymunedau a chynefinoedd amrywiol Gwent, gan fod gwybodaeth ac arbenigedd lleol yn hanfodol i ddylunio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn.



HYFFORDDIANT IECHYD A LLES A SGILIAU GWYRDD



Mae ein rhaglen hyfforddiant sgiliau gwyrdd yn ffynnu, gan gynnig cyfleoedd newydd cyffrous i grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr. Mae'r cyrsiau hyn nid yn unig yn arfogi unigolion gyda sgiliau gwerthfawr ond hefyd yn rhoi hwb i iechyd a lles. Rydym wedi darparu ystod eang o gyrsiau o sgiliau cymorth cyntaf a thorri prysglwyn i hyfforddiant arweinwyr teithiau cerdded ac adnabod planhigion.



Yn ddiweddar, treuliodd grŵp brwdfrydig o wyth gwirfoddolwr o Ymddiriedolaeth Coetir Caerffili ddau ddiwrnod yn dysgu'r grefft o weithio coed gwyrdd. Fe wnaethant greu ceffylau plaenio a stolion, gan ddefnyddio sgiliau treftadaeth ac adnoddau lleol. Rhannodd un gwirfoddolwr, "Dyma'r cwrs mwyaf pleserus a gwerth chweil rydw i erioed wedi bod yn rhan ohono, a bydd y ceffylau plaenio yn newid popeth i ni."

Yn y cyfamser, dechreuodd grŵp lwcus o gerddwyr o'r New Tredegar Strollers a'r Dicky Tickers ar antur fforio yn aber Cas-gwent gyda Chloe o Gourmet Gatherings. Ar ôl casglu llawer o blanhigion bwyttadwy, fe wnaethon nhw flasu danteithion blasus fel cawl hufenog wedi'i sbeisio â nytmeg castanwydd gwyllt a llysiau gwreiddiau gyda focaccia garlleg gwyllt wedi'i bobi'n ffres, a the rhosyn gwyllt, egroes, hibisgws, llugaeron a mafon.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cael y pleser o gefnogi mwy na deugain o grwpiau cymunedol i gyflwyno prosiectau sy'n hyrwyddo iechyd a lles. Mae'r mentrau hyn wedi cael effaith sylweddol ar les corfforol, meddyliol a chymdeithasol trigolion, yn aml yn dod â chymunedau'n agosach at ei gilydd. Wedi'u cynllunio i ddarparu buddion parhaol i unigolion, mae'r prosiectau hyn hefyd yn gwella'r amgylchedd naturiol ac, mewn rhai achosion, yn gosod y sylfaen ar gyfer adferiad natur.

Yng Nghasnewydd, mae Kidcare4u wedi bod yn gwneud gwahaniaeth mawr i deuluoedd ethnig amrywiol sy'n byw ar incwm isel. Mae'r fenter wych hon yn gweithio gyda chymunedau sy'n aml yn colli'r cyfle i fwynhau mannau gwyrdd oherwydd rhwystrau fel iaith a mynediad cyfyngedig i dechnoleg. Trwy gynnwys y cymunedau hyn mewn gweithgareddau fel tyfu llysiau, coginio gyda'i gilydd, archwilio mannau gwyrdd lleol fel y gwlyptiroedd, a mynd am dro, nod Kidcare4u yw darparu manteision uniongyrchol a hirdymor i iechyd meddwl cyfranogwyr. Mae'r prosiect hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod y rhai sydd wedi cael eu heithrio'n draddodiadol o gyfleoedd o'r fath bellach yn gallu cymryd rhan yn llawn, gan helpu nid yn unig unigolion, ond teuluoedd cyfan, i ddatblygu perthynas gadarnhaol a chynaliadwy â natur.



Un o'r grwpiau rydyn ni wedi'u cefnogi'n ddiweddar yw The Gathering Community Group. Mae'r sefydliad gwych hwn yn cynnig lle diogel a hygyrch i oedolion sydd ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, a heriau iechyd meddwl. Gyda chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, maent yn anelu at gyfoethogi eu gweithgareddau cymdeithasol trwy gynnig amrywiaeth o brofiadau garddio a thyfu. Rydym wedi bod yn falch iawn o'u helpu i wella eu hamgylchedd awyr agored.





Mae Natur Wyllt yn ôl!

Ydych chi'n angerddol am gefnogi bywyd gwyllt a pheillwyr lleol? Ymunwch â ni yn y fenter Natur Wyllt a thrawsnewidiwch eich mannau gwyrdd yn ddolydd bywiog, sy'n llawn blodau gwyllt!

Beth yw 'Natur Wyllt'?

Mae Natur Wyllt yn ddull arloesol o reoli glaswelltir sy'n ein hannog i adael i'n gerddi, ymylon, mannau agored, a pharciau dyfu'n naturiol yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae hyn yn creu ardaloedd dolydd sy'n darparu cynefinoedd hanfodol i beillwyr a bywyd gwyllt arall.

Mae'r prosiect Natur Wyllt yn rhan o Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, sy'n gweithio ar draws y rhanbarth i sefydlu mannau gwyrdd cysylltiedig sy'n gyfoethog o flodau gwyllt ac yn fuddiol i beillwyr.

Dilynwch ni [@Natureisntneat](#) ar Instagram a Facebook i gael diweddariadau ac i rannu eich lluniau o flodau gwyllt a bywyd gwyllt yn eich ardal!



Beth yw'r buddion?

Trwy ganiatáu i laswelltiroedd dyfu, rydym yn annog mwy o amrywiaeth o flodau gwyllt i flodeuo am gyfnodau hirach, gan ddarparu bwyd a chynefinoedd ar gyfer pryfed peillio fel gwenyn a phili-palod. Mae'r dull hwn nid yn unig o fudd i natur ond hefyd yn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd trwy storio mwy o garbon yn y pridd a lleihau effaith llifogydd.

Ar ben hynny, mae amgylcheddau sy'n cefnogi bywyd gwyllt amrywiol yn gwella iechyd a lles meddyliol pobl, gan gynnig cyfle i arafu a mwynhau harddwch blodau, pryfed a bywyd gwyllt arall.

Sut y byddwn yn rheoli mannau gwyrdd

Nid yw'r dull rheoli amgen hwn yn ymwneud â lleihau costau; mae'n ymwneud â gwella ein mannau gwyrdd i ddiwallu anghenion trigolion. Bydd ymylon llwybrau ac ymylon cyffyrdd yn cael eu torri'n aml i sicrhau diogelwch. Caiff ardaloedd hamdden a lleiniau chwarae eu cynnal a'u cadw a chaiff llwybrau eu torri drwy ddolydd i greu llwybrau cerdded.

Cynaeafu prysglwyn

Fel rhan o Natur Wyllt, rydym yn edrych i ddefnyddio mwy o ffynonellau hadau tarddiad lleol yn ein prosiectau adfer ac i helpu i ledaenu amrywiaeth leol i'n mannau gwyrdd. Felly, yr haf hwn, byddwn yn cynnal cynaeafu prysglwyn ar ddolydd sy'n gyfoethog o rywogaethau a fydd yn cael eu defnyddio i hadu ymylon, parciau a chaeau ledled Gwent.

Beth am wneud eich dŵl fach eich hun?

Trwy ganiatáu i rannau o'ch gardd dyfu'n naturiol, gallwch greu hafan i beillwyr a bywyd gwyllt arall. Plannwch flodau gwyllt brodorol, lleihewch eich torri, a gadewch i natur ddatblygu. Mae pob ychydig yn helpu i greu rhwydwaith o fannau gwyrdd sy'n cefnogi bioamrywiaeth.



Gallwch ymuno â'r fenter Natur Wyllt trwy reoli eich man gwyrdd eich hun ar gyfer natur. Gofynnwch am ein pecyn adnoddau newydd drwy e-bostio gwentpollinators@monmouthshire.gov.uk

